



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Neges gan GwE ac Awdurdodau Lleol y Rhanbarth



Gobeithio eich bod wedi cael rhywfaint o amser i gymryd seibiant dros yr hanner tymor.

Lles Penaethiaid

Fel y gwyddoch, ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn.

Er mwyn cefnogi hyn ymhellach, rydym wedi trefnu gweithdy i arweinwyr ysgolion er mwyn rhoi amser a lle i chi ystyried sut ydych yn wynebu heriau mewn byd sydd yn newid mor gyflym.

Mae gweithdy '**Gofalu amdanaf fi fy hun**' wedi ei drefnu ar eich cyfer ddydd Iau, 12 Tachwedd 2020

[Gwybodaeth bellach.](#)

Parhad y Dysgu

Rydych hefyd yn ymwybodol ein bod yn awyddus i weld ysgolion yn cydweithio â'i gilydd, ac â ninnau, i baratoi ar gyfer sefyllfaoedd posibl allai godi a pharatoi ar gyfer unrhyw darfu pellach allai ddigwydd gan gynyddu'r gronfa adnoddau sydd eisoes ar gael.

Mae llyfrgell o adnoddau dysgu cyfunol, wedi'u creu gan athrawon, ar gyfer athrawon, ar gael [yn awr](#). Mae clystyrau a chynghreiriau wedi bod yn casglu, cyd-lunio a rhannu adnoddau â'i gilydd ac ar draws y rhanbarth.

Gwybodaeth bellach i'w chael [yma](#).

Gobeithio bydd hyn yn fodd i gefnogi cyd-weithwyr ar draws y Gogledd gan barhau â'r arferion cydweithio cadarn sydd eisoes yn digwydd.

Gyda diolch diffuant am bopeth yr ydych chi, a'ch staff a chymuned yr ysgol, yn ei wneud.

Gweithdy Llesiant i Benaethiaid



'GOFALU AMDANAF FI FY HUN'

Fe'ch gwahoddir i'r gweithdy uchod ddydd Iau, 12 Tachwedd. Cynhelir y gweithdy rhwng 13:30 a 14:45 y prynhawn, ac unwaith eto am 15:45 hyd 17:00.

Bwriad y gweithdy llesiant hwn i Benaethiaid yw rhoi amser a lle i chi ystyried pa mor barod ydych chi i wynebu heriau o'r tu allan sydd yn newid mor gyflym.

Dan arweiniad Claire Chidley, arbenigwraig ar lesiant, newid a gwytnwch, bydd y sesiwn yn edrych ar ystyr llesiant a sut y gallwn greu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

I gofrestru, dilynwch y linc perthnasol: [Sesiwn 1 \[13:30-14:45\]](#) | [Sesiwn 2 \[15:45-17:00\]](#)

Rhaglen Dysgu Carlam

Peidiwch ag anghofio bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael mynediad i'r adnoddau yn adran Sgiliau Carlam Canolfan Cefnogaeth GwE, ar gael ar y dudalen gweminarau. Dilynwch y ddolen hon i weld recordiadau am **SAFMEDS, Headsprout, Cyflymu Llythrennedd a sgiliau Rhifedd**, yn ogystal â'r adolygiadau o **becynnau cymorth llythrennedd a rhifedd ar-lein**.

Anfonwch unrhyw ymholiadau i llythrenneddarhifedd@gwegogledd.cymru

CLICIWCH YMA

Cyfleoedd a Rhaglenni Datblygu Proffesiynol GwE

Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth



Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol i Uwch Arweinwyr

Mae'r rhaglen ddatblygu **newydd** hon, dros 12 mis, yn gyfle dysgu proffesiynol i uwch arweinwyr ar draws Cymru. Bydd ymgeiswyr yn gweithio'n unigol a chydag eraill fel arweinwyr sefydliadau sy'n dysgu. Mae hon yn rhaglen genedlaethol a gydlynir gan y consortia rhanbarthol, gan ddefnyddio ystod o bartneriaid i ddarparu.

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth a manylion ymgeisio.

Rhaglen Ddatblygu Darpar CALU

Mae Cylch 2 Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn mis Ionawr 2021. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **20 Tachwedd 2020**.

[Cliciwch yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a'r dull ymgeisio. Mae'n bwysig eich bod yn gwylio'r sesiwn wybodaeth hon cyn ymgeisio: <https://www.youtube.com/watch?v=vuAKpGTefZI>

Cyfle cyffrous i Gynorthwyyr Addysgu newydd!

Mae'r Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyyr Addysgu ar gyfer unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

Yn 2020-21, bydd newidiadau **sylweddol** i reoliadau Sefydlu ANG, a bydd yn bwysicach nag erioed bod pob Mentor Sefydlu ysgol (MS), ANG a Gwiriwr Allanol (GA) yn mynychu un o'r sesiynau hyfforddi/briffio cenedlaethol. Bydd ystod o sesiynau pwrpasol ar-lein ar gyfer pob rôl.

[Dylai ysgolion enwebu MS i fynychu sesiwn hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi penodi athro fydd yn ANG ym mis Medi ar hyn o bryd, gan fod y mwyafrif o ysgolion yn cyflogi ANG ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd].

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth/am ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi.

Mae dyddiadau sesiynau hyfforddi Awdurdodau Lleol ar gyfer ANG hefyd ar gael yma, ynghyd â'r manylion cyswllt ar gyfer pob Awdurdod.

Gweithdy Cyfnod Sylfaen

'DATBLYGU SGILIAU MATHEMATEGOL A RHIFYDDOL TU ALLAN'

Cliciwch ar y linc er mwyn ymuno â'r webinar fyw:

SESIWN CYMRAEG: 12 TACHWEDD 2020, 15:45-16:45

SESIWN SAESNEG: 10 TACHWEDD 2020, 15:45-16:45

FFOCWS: syniadau am ffyrdd o ddatblygu sgiliau mathemategol a rhifyddol disgyblion drwy brofiadau dysgu cyfoethog yn yr awyr agored (nifer fawr o'r gweithgareddau yn seiliedig ar 'Y Nadolig' a defnyddio adnoddau naturiol a darnau rhydd)

ADDAS AR GYFER: Athrawon a Chymorthyddion y Cyfnod Sylfaen

(Yn dilyn y webinar fyw, bydd recordiad ar gael ar adran 'Gweminarau' Canolfan Gefnogaeth GwE (o fewn gwefan GwE).

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref, bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#). 

Mae cymorth gweithredu ar gael drwy gyswllt fideo i **bob ysgol** yn rhanbarth GwE. Bydd y sesiynau hyn wedi'u haddasu i anghenion ysgolion, athrawon, neu staff cymorth unigol. Bydd Kaydee Owen (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

- 12 Tachwedd
- 9 Rhagfyr
- 11 Ionawr
- 9 Chwefror
- 11 Mawrth

Trefnwch amser ar-lein ar gyfer cyfarfod un i un : <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

Er mwyn cael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwylwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

Dyfodol Byd-Eang GwE- ITM



Dyfodol Byd-eang a Phartneriaid:

Cyrsiau Mandarin i Athrawon

Mae Sefydliad Confucius Caerdydd yn eich gwahodd i ymuno â'n [Cyrsiau Mandarin i Athrawon](#). Bydd y cyrsiau'n cael eu cynnal ar Zoom, ac maen nhw'n RHAD AC AM DDIM i athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd lleol.

The Language Show: 13, 14 a 15 Tachwedd 2020

Cyfle unigryw i gael gweld cynifer o gyflwyniadau ag y mynnwch, a hynny **am ddim** ac o'ch cartref! Mae arbenigwyr ym maes addysgu ITM/leithoedd Rhyngwladol yn **cynnig amrywiaeth eang o weithdai** ar gyfer pob lefel (cynradd ac uwchradd) dros gyfnod o 3 diwrnod.

[Edrychwch ar y rhaglen a'r dolenni er mwyn cofrestru.](#)

Mae Tîm DBE yn argymhell y rhain yn benodol, ond mae llawer mwy!

Jennifer Wozniak, Joe dale, Juliet Park, Rachel Hawkes, Suzi Bewell, Lisa Stevens, Judith Rifesser.

Cyfle Cysylltiadau Rhyngwladol i'ch Ysgol

YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD

DILiS - Dysgu Arloesol Digidol mewn Ysgolion

A oes gennych chi ddiddordeb mewn cysylltiadau rhyngwladol? Ydych chi'n ysgol arloesol sydd am fod yn rhan o gynllun peilot i greu rhwydwaith byd-eang o addysgwyr?

Os ydych chi, darllenwch y taflenni gwybodaeth sydd ynghlwm a chysylltwch â amanda@Internationallinks.co.uk neu stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru am fwy o wybodaeth.

TAFLENNI GWYBODAETH: [CYNRADD](#) | [UWCHRADD](#)

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Lywodraeth Cymru

Addysgu Cymru - Rhestr Chwarae YouTube



Mae gan Llywodraeth Cymru bellach faes penodol ar ei sianel YouTube Addysg Cymru ar gyfer ymgyrch Addysgu Cymru.

Fe welwch y fideos a'r animeiddiadau diweddaraf ar y [ddolen hon](#).

Newyddion a Chyfleoedd: Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL
REGIONAL SCHOOL IMPROVEMENT CONSORTIA



Datganiad Dysgu Proffesiynol Traws-Ranbarthol

Mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol yn falch o fod wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu disgwyliadau'r system ar gyfer 2022. Rydym yn edrych ymlaen at rannu ein cynnig dysgu proffesiynol gyda'n hysgolion i gefnogi eu paratodau wrth baratoi i roi cwricwlwm newydd ar waith. Ceir rhagor o fanylion [yma](#).



Aseswyr CALU

Mae'r Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol yn chwilio am ymarferwyr i ymuno â'r tîm sy'n ymwneud â'r Rhaglen Asesu Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) ar ran Llywodraeth Cymru.

Fel aseswr, bydd gofyn i chi gynnal asesiadau ar ymgeiswyr o ysgolion ledled eich rhanbarth sydd wedi cwblhau rhaglen Darpar CALU, ac sy'n mynd ymlaen i gael eu hasesu.

Cliciwch [yma](#) am rhagor o wybodaeth.

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Erail

Cystadleuaeth Clwb y Dyfodol Undeb Rygbi Cymru

Allwch chi gyfuno diwylliant a hanes Cymru â'ch gobeithion a'ch breuddwydion ar gyfer y dyfodol i adeiladu Clwb y Dyfodol?

Mae Undeb Rygbi Cymru a Hwb yn falch o gyhoeddi lansiad cystadleuaeth sy'n dod â'r agweddau yma o Gymru ynghyd i ddylunio ac adeiladu 'Clwb y Dyfodol' yn Minecraft: Education Edition.

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar y [ddolen yma](#).



Cwrs STEM Coed, Coetiroedd Campus

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal sesiwn Hyfforddiant rhithiol STEM rhad ac am ddim ar Goed, Coetiroedd Campus ym mis Tachwedd. Manylion llawn ar gael [yma](#).

Os hoffech archebu lle cysylltwch â addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda.



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Digwyddiad Perthnasoedd Cadarnhaol Ar-lein

DYDD MAWRTH, 10 TACHWEDD 2020

Bydd y digwyddiad 2 awr ar-lein hwn yn dwyn ynghyd weithwyr proffesiynol blaenllaw o sefydliadau sy'n gweithio i ddatblygu perthynas gadarnhaol ac atal camdriniaeth mewn lleoliadau addysgol.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: shan@positivevibesinternational.co.uk

Blether Rhyngwladol - 'Cadw Olew yn eich Lamp'

DYDD MERCHER - 11 TACHWEDD 2020 - 16:30-17:30

Bydd Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru yn cynnal digwyddiad 'Blether Rhyngwladol' mewn cydweithrediad â'n cyd-weithwyr yn Iwerddon a'r Alban. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Mae hwn yn ddigwyddiad am ddim, ond oherwydd nifer cyfyngedig o lefydd, mae angen cadw lle - <https://www.eventbrite.co.uk/e/international-blether-keeping-oil-in-your-lamp-tickets-124107706491>



Darllen Dros Gymru 2020-2021

HER DDARLLEN [Cymraeg]

Mae Darllen Dros Gymru yn her ddarllen hwyliog i ddisgyblion oedran cynradd yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth [yma](#).

[Cliciwch yma](#) i weld yr heriau a'r adnoddau i ddatblygu sgiliau adolygu llyfrau.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r trefnydd rhanbarthol:

Shoned Davies • shoned.davies@llyfrau.cymru • 07909 233010

BookSlam 2020-2021

HER DDARLLEN [SAESNEG]

Mae *BookSlam* yn her ddarllen hwyliog i ddisgyblion oedran cynradd yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth [yma](#). Gellir lawrlwytho'r rhestr lyfrau [yma](#).

[Cliciwch yma](#) i weld yr heriau a'r adnoddau i ddatblygu sgiliau adolygu llyfrau.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â threfnydd rhanbarthol GwE:

Vicky Lees • Vickylees@gwegogledd.cymru • 07966 266973

At sylw Cydlynwyr Bagloriaeth/Tystysgrif Her Sgiliau

Sgiliau'r Dyfodol: Ymgynghoriad ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Uwch Cymru

Bydd y [ddolen hon](#) yn mynd â chi i'r wefan sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Bydd ymgynghoriad Sgiliau'r Dyfodol ar agor am gyfnod o 8 wythnos, a bydd yn cau am **hanner dydd 13 Tachwedd**.

post@gwegogledd.cymru

